Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen
# Rhoscolyn
# Caergybi
# LL65 2DX

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen

Mae Ysgol Santes Gwenfaen ar Ynys Cybi yn gwasanaethu pentrefi Rhoscolyn a Bae Trearddur yn ogystal â'r ardal gyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol. Mae 116 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 15 disgybl oed meithrin. Fe'u rhennir yn bedwar dosbarth oedran cymysg.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw 11%. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae tua 38% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 22% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn debyg i'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill 2017, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn erbyn Blwyddyn 6. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn ardderchog ac maent yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda.

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn dda ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu bwrpasol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr a diddorol, ac mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n dda.

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles y disgyblion. Mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus iawn er mwyn sicrhau ethos gofalgar. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Sicrhau gwell cyfleoedd i ddisgyblion ieuengaf y cyfnod sylfaen ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

A3 Datblygu'r ardal allanol ar gyfer y cyfnod sylfaen i fod yn estyniad naturiol o'r dosbarth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i dua 60% o'r disgyblion. Er hyn, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n dda o oedran cynnar. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol wrth sgwrsio gyda'i gilydd ac oedolion. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio cymariaethau ac ansoddeiriau'n fedrus, er enghraifft wrth drafod anifeiliaid yn y jyngl. Maent yn cyfleu gwybodaeth bersonol a ffeithiol mewn sgwrs.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Wrth geisio dwyn perswâd am bwysigrwydd bwyta'n iach, maent yn trafod yn ystyrlon wrth gynnal dadl. Cyn gadael yr ysgol, mae bron pob un wedi cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall. Mae'r disgyblion hŷn yn trafod manteision dysgu'r Gymraeg a bod yn ddwyieithog gyda balchder.

Mae bron bob un disgybl yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau darllen ac yn defnyddio strategaethau amrywiol i ddad-ddynodi geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn hyderus a rhugl ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei ddarllen, gan drafod cynnwys eu llyfrau yn wybodus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen gyda chywirdeb a rhugldер yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol, er enghraifft wrth lunio portread o Oliver Twist a disgrifio trychineb llong y Royal Charter. Mae uwch fedrau darllen rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn datblygu'n llwyddiannus; maent yn rhagfynegi, egluro, cwestiynu a chrynhoi gwybodaeth yn effeithiol iawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod gynyddol o frawddegau syml, gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol, er enghraifft wrth ysgrifennu darn estynedig diddorol am y cymeriad Wali. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau o ysgrifennu. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Mae eu storïau arswyd yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n effeithiol. Mae cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen yn dda ar draws yr ysgol.

Mae medrau rhifedd disgyblion yn gadarn. Maent yn adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, gall rhan fwyaf y disgyblion ddefnyddio'r

wybodaeth hon yn hyderus i ddatrys problemau bywyd go iawn, fel cost trydan yn y cartref. Maent yn ymdrin â mesuriadau yn llwyddiannus wrth gymharu taldra disgyblion gyda'u hoedran ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir wrth drafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graff bar yn dda, er enghraifft wrth nodi hoff chwaraeon y disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf graffiau, er enghraifft i nodi curiad y galon ar ôl rhedeg neu neidio. Defnyddiant eu medrau'n fedrus i ddarganfod faint o filltiroedd oedd llong y Royal Charter yn ei deithio ar gyfartaledd pob dydd ar ei mordaith o Melbourne i Lerpwl. Mae'r disgyblion hŷn yn datrys problemau rhifiadol yn effeithiol wrth weithio allan cost gosod carped ar risiau mewn tŷ.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio TGCh yn hyderus ac yn annibynnol at wahanol ddibenion. Yn y cyfnod sylfaen, er enghraifft, maent yn defnyddio meddalwedd yn bwrpasol i greu ffeil ffeithiau am anifeiliaid gwyllt ar ôl casglu gwybodaeth berthnasol ar y we. Gallant drin data yn effeithiol drwy greu graffiau bloc i ddangos hoff fara'r disgyblion yn y dosbarth ac i greu patrwm sy'n ailadrodd ar gyfer dylunio papur lapio Nadolig. Gall llawer ddefnyddio codau QR yn ddeallus i ddatrys problemau rhif ac i arddangos gweithgareddau creadigol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn defnyddio Hwb yn hyderus ar gyfer cwbwlhau eu gwaith cartref. Maent yn defnyddio meddalwedd yn fedrus i gyflwyno gwaith am y Rhufeiniaid ac wrth gynhyrchu sioe fideo fer am agweddau o fywyd yn Oes Fictoria. Maent yn paratoi pwyntiau pŵer diddorol, er enghraifft i gyflwyno gwybodaeth am effaith technoleg ar yr amgylchedd drwy ddewis a dethol gwybodaeth benodol fel sail i ddadl. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau estynedig. Yn ystod eu gwersi, maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn disgwyl yn amyneddgar i gyfrannu. Maent yn fodlon mentro ac mae llawer yn troi camgymeriad yn darged dysgu yn llwyddiannus. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ac maent yn cyfrannu'n bositif tuag at gefnogi a gwella dysgu ei gilydd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn llwyddo yn eu tasgau. Mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, nid yw medrau dysgu annibynnol y disgyblion ieuengaf yn y cyfnod sylfaen wedi datblygu'n ddigonol.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at nifer o elusennau sy'n bwysig iddynt, ac mae'r cysylltiadau cryf ag ysgol yn Nairobi yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae ymddygiad bron pob disgybl y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch. Nodwedd arbennig yw'r ffaith fod llawer o'r disgyblon hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau mewn ffordd garedig ac annwyl ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae hyn yn cyfrannu at natur gynhwysol ac ethos gofalgar yr

ysgol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfle i fynegi pryder, dweud diolch a chynnig syniadau yn y blwch `Dwi Isho Deud`, sy'n rhan o gyfrifoldeb y cyngor ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i gadw'n iach, ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed. Drwy gymryd rhan mewn rhaglen gynhwysfawr o addysg gorfforol a gweithgareddau allgyrsiol fel athletau a rhedeg milltir yn ddyddiol o amgylch y trac, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae llais y disgybl yn greiddiol i fywyd yr ysgol ac mae'r trawsdoriad o aelodau sydd wedi eu hethol i wahanol grwpiau fel y grŵp eco, y cyngor ysgol a'r llysgenhadon ar ddechrau'r flwyddyn addysgol yn cyflawni eu gwaith yn fedrus. Mae'r llysgenhadon yn trefnu rhaglen ddiddorol o wahanol chwaraeon i ddisgyblion ymgymryd â hwy yn ystod amser egwyl. Mae'r Criw Cymraeg yn dangos balchder yn y modd maent yn hyrwyddo pwysigrwydd siarad Cymraeg drwy anfon posteri lliwgar i'r rhieni, er enghraifft i hysbysebu gwyliau teuluol i ganolfan breswyl Glanllyn.

Mae gwybodaeth llawer o'r disgyblion ynglŷn ag agweddau cynaliadwy yn datblygu'n llwyddiannus. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o sut i leihau gwastraff ac effaith gwastraff ar yr amgylchedd. Yn dilyn ymweliad i'r ganolfan ailgylchu leol, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd i wastraff ar ôl gadael yr ysgol.

Er ymdrechion yr ysgol, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi disgyn dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae ymhlith y 50% is o ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu bwrpasol. Mae hyn yn eu galluogi i roi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda ac fe reolir ymddygiad yn effeithiol iawn. Defnyddia'r staff fodelau iaith da sy'n hybu medrau cyfathrebu'r disgyblion. Mae hyn yn arwain at safonau dwyieithrwydd cadarn erbyn i'r disgyblion adael yr ysgol.

Yn yr arfer orau, mae cyflwyniadau'r gwersi'n fywiog a gweithgareddau'n llifo'n dda. Mae athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn dull ystyrlon a pherthnasol ac yn ymestyn y dysgu drwy brofiadau ymarferol fel ymweld â chanolfan ailgylchu leol. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol y wers.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Ceir enghreifftiau da o farcio pwrpasol ac mae sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion. Fe anogir y disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athrawon ac adolygu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr a diddorol sy'n sbardun i'r gwaith thema. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i atgyfnerthu eu medrau mewn ystod eang o bynciau. O ganlyniad, mae datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn datblygu'n dda. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn i sicrhau bod disgyblion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu ac yn datblygu ystod eang o fedrau. Er enghraifft, mae disgyblion yn cyfrannu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu ar ddechrau bob thema. Fodd bynnag, mae tuedd i'r gweithgareddau ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn y cyfnod sylfaen fod yn or-ddibynnol ar gyfarwyddyd oedolion, sy'n llesteirio'r cyfleoedd iddynt ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Nid yw'r ardal allanol ar gyfer y cyfnod sylfaen wedi ei datblygu'n llawn i fod yn estyniad naturiol o'r dosbarth.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus ac yn annog y disgyblion i'w defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu yn barhaus. Mae'r dimensiwn Cymreig, gan gynnwys hyrwyddo gwybodaeth am ddiwylliant a hanes Cymru, yn treiddio trwy holl fywyd a gwaith yr ysgol. Cyfoethogir y profiadau ymhellach gan ymweliadau gan actores a phêl-droediwr adnabyddus a oedd yn hyrwyddo pwysigrwydd Cymraeg yn eu meysydd. Fe geir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gystadlu mewn eisteddfodau ac astudio'r amgylchedd lleol a hanes Cymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch, ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog, yn dangos parch tuag at ei gilydd ac ymwelwyr, ac yn ymateb yn gydwybodol i'w gweithgareddau. Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn dda ar gyfer gofalu am y disgyblion iau o gwmpas yr ysgol drwy roi cyfrifoldeb i'r disgyblion hŷn drefnu gweithgareddau chwarae ar eu cyfer yn ystod amser egwyl. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn ymateb gydag awch a brwdfrydedd i'r cyfleoedd amrywiol maent yn eu cael.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i olrhain cynnydd a lles y disgyblion. Mae rhain yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio gweithgareddau sy'n ymateb i anghenion yr holl disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon yn gosod her ymestynnol i ddisgyblion mwy abl ac yn darparu ymyraethau priodol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol penodol, sy'n nodi cryfderau ac agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r athrawon dosbarth yn ystyried cynnwys y cynlluniau yn ofalus wrth gynllunio'u gwersi. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol yn ofalus ac yn addasu'r ddarpariaeth yn briodol ar eu cyfer.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf a defnyddiol gyda'r rhieni, y gymuned, ysgolion eraill ac asiantaethau allanol. Gwneir defnydd effeithiol iawn o wirfoddolwyr lleol; er enghraifft, mae cyfraniadau arbenigwraig gerddorol yn gwella medrau canu aelodau côr yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored ac yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o weithgareddau'r ysgol. Mae'r gymdeithas

rhieni yn codi arian i gynorthwyo'r ysgol i brynu adnoddau fel cyfarpar technolegol a llyfrau darllen ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at ymestyn cyfleoedd dysgu a safonau'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae wedi ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau'r cyngor ysgol, er enghraifft drwy sefydlu trac rhedeg milltir i hybu ffitrwydd y disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn deall ac yn gwerthfawrogi effaith y gweithgareddau hyn ar eu hiechyd.

Mae ymweliadau gan aelod o'r heddlu yn addysgu'r disgyblion yn dda am beryglon camddefnyddio sylweddau ynghyd â pheryglon defnyddio'r we. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol ac mae'r ymweliadau â'r gymuned leol yn cyfoethogi hyn ymhellach. Er enghraifft, mae'r cyfleoedd i gystadlu mewn gweithgareddau'r Urdd a'r sioe Nadolig yn magu medrau cymdeithasol a chodi awch a brwdfrydedd y dysgblion i berfformio'n gyhoeddus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae wedi dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac wedi gosod disgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn er mwyn sicrhau ethos gofalgar a lles uchel disgyblion. Maent yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod, cynllunio ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y profiadau eang a gwerthfawr a ddarperir.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar, ac mae gan bob aelod gyfrifoldeb penodol. Maent wedi dechrau ymweld â'r dosbarthiadau a chraffu ar waith y disgyblion, ac oherwydd hyn, mae eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu yn gwella. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol ac mae gwariant yn cysylltu'n dda â'i chynlluniau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i wella medrau darllen yr ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl ar gyfer rheoli perfformiad athrawon, gydag amcanion sy'n cysylltu'n addas â blaenoriathau'r ysgol. Mae'r prosesau'n cael effaith briodol ar addysgu a dysgu, er enghraifft yn y dull cyson o ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a staff ategol. Er enghraifft, mae'r hyfforddiant a ddarparwyd i wella dulliau olrhain cynnydd disgyblion wedi arwain at welliant ym medrau darllen Cymraeg ar draws yr ysgol. Hefyd, mae'r cydweithio pwrpasol ag ysgolion eraill wedi gwella'r ddarpariaeth yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen a chynllunio ar gyfer gwyddoniaeth, cerdd a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 bellach yn cynnwys gweithgareddau mwy ymarferol i'r disgyblion,

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy’n canolbwyntio’n dda ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio’n gadarn ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae systemau cadarn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i’w gweithredu. Mae staff yn dadansoddi data a deilliannau yn ofalus. Maent hefyd yn ystyried trefniadau asesu mewnol, craffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith ac arsylwi gwersi’n rheolaidd. Mae’r staff i gyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau monitro yn rhoi barn ddigon cadarn ar ddeilliannau disgyblion. Mae’r modd y mae’r ysgol yn cynnwys barn disgyblion yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac mae pwyslais cryf ar sicrhau bod gan rieni rôl weithredol yn y broses o wneud sylwadau a chynnig gwelliannau. Er enghraifft, yn dilyn ymgynghoriad â’r rhieni, fe adolygwyd a newidiwyd y ffordd mae’r ysgol yn rhoi gwybodaeth iddynt am gyflawniad a chynnydd eu plant.

Mae’r cynllun datblygu ysgol yn deillio’n uniongyrchol o’r dystiolaeth o’r broses hunanarfarnu ac yn manylu’n rhesymegol ar y prif flaenoriaethau. Mae’n ddogfen gryno a chlir gyda nifer addas o flaenoriaethau perthnasol i weithredu arnynt dros dair blynedd. Mae’r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldeb monitro a gwerthuso effeithiolrwydd, yn glir. Mae gallu’r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn llwyddiannus, er enghraifft wrth weld cynnydd yn nifer y disgyblion mwy abl sy’n cyflawni'r lefelau uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2018